

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir
Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40
mya a Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2018

The A40 Trunk Road (Llandeilo to
Carmarthen, Carmarthenshire)
(Temporary 40 mph Speed Limit &
Prohibition of Vehicles) Order
2018

Gwnaed 20 Gorffennaf 2018
Yn dod i rym 30 Gorffennaf 2018

Made 20 July 2018
Coming into force 30 July 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ac oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of the likelihood of a danger to the public and because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 30 Gorffennaf 2018.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Llandeilo to Carmarthen, Carmarthenshire) (Temporary 40 mph Speed Limit & Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 30 July 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 30 Gorffennaf 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llandeilo i Gaerfyrddin;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Llandeilo to Carmarthen Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 30 July 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works have been removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Restriction and Prohibition

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspensions

6. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 are suspended during such times as the restriction specified in article 3 applies.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Gorffennaf 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI **Darnau o'r gefnffordd rhwng Llandeilo a** **Chaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin**

ATODLEN 1 **Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4310 i Nantgaredig hyd at bwynt 1.36 cilometr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C2050 i Felin-wen.

ATODLEN 2 **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 20 July 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULES **Lengths of the trunk road between Llandeilo and** **Carmarthen, Carmarthenshire**

SCHEDULE 1 **Temporary 40 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 240 metres west of the centre-point of its junction with the B4310 to Nantgaredig to a point 1.36 kilometres east of its junction with the C2050 Class III road to Whitemill.

SCHEDULE 2 **Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the trunk road that extends from the western side of Llandeilo Roundabout, Llandeilo to the eastern side of Glangwili Roundabout, Carmarthen.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(LLANDEILO I GAERFYRDDIN, SIR
GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER 40
MYA A GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO)
2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ac er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder hwn mewn grym am gyfnod para'r Gorchymyn hwn.

ii. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys rhag ofn y bydd angen cau'r ffordd o bryd i'w gilydd i wneud gwaith cynnal a chadw. Yn yr achosion hynny, mae'r ffordd yn debygol o fod ar gau fesul darn a bydd hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau. Yn ystod yr adegau hynny, sicheir mynediad i eiddo ar hyd y darnau a fydd ar gau.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 30 Gorffennaf 2018 ac yn parhau, yn ôl yr angen, am 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (LLANDEILO TO
CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY 40 MPH SPEED LIMIT &
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and to undertake works on or near the A40 trunk road between Llandeilo and Carmarthen, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 40 mph speed limit on the length of the A40 described in Schedule 1 to this Notice. This speed limit will be in force for the duration of the Order.

ii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and the works, from proceeding on the length of the A40 described in Schedule 2. The alternative route is also described in that Schedule.

This provision is included as a contingency should the need arise to close the road occasionally to undertake maintenance works. In those instances, the road is likely to be closed in sections and notice of the prohibitions will be signed in advance of any works. During these times, access will be maintained to properties along the lengths of any closures.

The temporary restriction and prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force at 00:01 hours on 30 July 2018 and operate, as required, for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4310 i Nantgaredig hyd at bwynt 1.36 cilometr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C2050 i Felin-wen.

ATODLEN 2

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybr Arall

Y darn o'r A40 sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar hyd yr A483 tua'r de i Ffairfach, yr A476 tua'r de-orllewin i Cross Hands, yr A48 tua'r gorllewin i Gylchfan Pen-sarn a'r A40 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Glangwili: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the A40 that extends from a point 240 metres west of the centre-point of its junction with the B4310 to Nantgaredig to a point 1.36 kilometres east of its junction with the C2050 Class III road to Whitemill.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Route

The length of the A40 that extends from the western side of Llandeilo Roundabout, Llandeilo to the eastern side of Glangwili Roundabout, Carmarthen.

The alternative route for westbound vehicles will be via the southbound A483 to Ffairfach, south-westbound A476 to Cross Hands, north-westbound A48 to Pensarn Roundabout and north-eastbound A40 to Glangwili Roundabout: vice versa for eastbound vehicles.